

Dulliau Cofrestru

- **Rhaid** cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno cod perthnasol am yr uned a'r opsiwn er mwyn hysbysu CBAC pa unedau sydd wedi'u cwblhau gan yr ymgeiswyr, hynny yw cod uned *Cynnal a Chadw Gwallt Iach* Mynediad 2 yw 6159/E2
- Gellir cofrestru am gymwysterau (cyfnewid) drwy gyflwyno cod perthnasol am y cymhwyster a'r opsiwn, hynny yw cod dyfarniad *Datblygiad Personol a Chymdeithasol* Mynediad 2 yw 6001/A2

*Nid yw cyfanredu unedau'n digwydd yn awtomatig: rhaid i ganolfannau gofrestru'r cod cyfnewid er mwyn i hyn ddigwydd. Gellir gwneud hyn ar yr un pryd ag y mae'r unedau'n cael eu cofrestru **neu** yn y cyfnod cyfranedu hwyr ar ôl y canlyniadau **neu** mewn cyfres arholi ddilynol.*

Cyfnodau Cofrestru

- Cyfres Ionawr: 21 Hydref – **11 Tachwedd** – y dyddiad olaf ar gyfer yr holl gofrestriadau **13 Rhagfyr**
- Cyfres Mehefin: 21 Chwefror – **18 Mawrth** - y dyddiad olaf ar gyfer yr holl gofrestriadau **5 Mai**

*Amlygir y dyddiad cau ar gyfer derbyn cofrestriadau a newidiadau mewn **print bras**. Ni dderbynnir cofrestriadau pellach ar ôl y dyddiad hwn am fod rhaid anfon samplau i'w safoni. Cynghorir canolfannau i gyflwyno'u cofrestriadau cyn y dyddiadau uchod er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu prosesu mewn da bryd. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod digon o amser i ganfod unrhyw broblemau/gwrthodiadau cofrestru a allai godi.*

Safoni Mewnol

- Asesir yr holl Llwybrau Mynediad yn fewnol a chânt eu safoni'n allanol
- Rhaid i'r Aseswr/Athro/Athrawes asesu'r gwaith cyn ei anfon i'w safoni
- Bydd angen i athrawon/aseswyr y pwnc lawrlwytho copiâu o'r cofnodion asesu a'r taflenni clawr/dilysu i ymgeiswyr o dudalennau'r cymhwyster perthnasol ar wefan CBAC
- Pan fo mwy nag un Aseswr/Athro/Athrawes yn asesu'r gwaith, rhaid i'r ganolfan benodi **Gwiriwr Mewnol** er mwyn sicrhau y caiff pob ymgeisydd ei farnu yn ôl yr un safon ar draws gwahanol aseswyr, grwpiau addysgu ac o flwyddyn i flwyddyn
- Unwaith y mae'r unedau wedi'u cwblhau a'u hasesu'n fewnol, gellir cofrestru
 - P (llwyddo) – **Rhaid** i ymgeiswyr allu darparu tystiolaeth eu bod wedi cwrdd â'r **holl** feini prawf asesu ar gyfer pob uned y maen nhw wedi'u cofrestru i'w gwneud.
 - A (absennol) – **Ni ddylid** cofrestru ymgeiswyr ar gyfer uned os nad ydynt wedi cwrdd â'r **holl** feini prawf asesu ar gyfer yr uned honno. Os yw'r ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer uned ac yn methu â darparu tystiolaeth ei fod wedi cwrdd â'r holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned honno, mae'n rhaid i chi **dynnu'r ymgeisydd yn ôl** neu nodi ei fod yn **Absennol** ar IAMIS.

Safoni Allanol

Dyddiadau Cyflwyno

- Cyfres Ionawr: erbyn **12 Rhagfyr**
- Cyfres Mehefin: erbyn **4 Mai**

Cyflwyno Canlyniadau/Graddau

- Rhaid cyflwyno pob un o ganlyniadau'r ganolfan (Llwyddo neu Absennol) ar gyfer pob ymgeisydd ar y System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol (IAMIS) a gellir cyrchu'r system hon o'r dyddiadau isod ymlaen:
 - Cyfres Ionawr: o **6 Tachwedd**
 - Cyfres Mehefin: o **12 Mawrth**
- Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r holl ganlyniadau i CBAC, bydd y system yn cynhyrchu sampl y mae'n rhaid ei hanfon i'w safoni
- Gall y canolfannau hefyd ganfod manylion y safonwr ar y system er mwyn gwybod at bwy yn CBAC y dylid anfon y gwaith

Am ganllawiau pellach ar y system ar-lein, gweler dogfen Llwybrau Mynediad – System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol: Canllaw Cam wrth Gam.

Cyflwyno Samplau

- Rhaid cyflwyno sampl (a gynhyrchir gan y system ar-lein) i'w safoni ar gyfer pob uned a phob lefel
- Rhaid i bob sampl a anfonir i'w safoni'n allanol gynnwys **Taflen Gofnodi'r Asesiad** (ar gyfer pob ymgeisydd a phob uned) a **Thaflen Ddilysu Ymgeisydd** (wedi'i llofnodi gan yr ymgeisydd a'r athro/athrawes)
- O dan amgylchiadau eithafol (hynny yw gwaith ar goll neu salwch), rhaid anfon **Datganiad Tyst** mewn achosion pan fo marc wedi'i ddyfarnu ond ni ellir canfod tystiolaeth faterol i gefnogi'r dyfarniad. Mae Aseswr/Athro/Athrawes yr ymgeisydd yn gyfrifol am benderfynu a yw'r datganiad tyst yn ddilys; dylid llofnodi'r datganiad a nodi'r dyddiad
- Mae'n bosibl y bydd cyfarwyddiadau penodol ar sut i gyflwyno gwaith ar gael yng nghanllawiau'r cymwysterau/unedau unigol ar y tudalennau perthnasol ar wefan CBAC. Oni nodir yn wahanol:
 - Dylid cyflwyno gwaith pob ymgeisydd mewn ffolder/ffeil maint A4 gan nodi **enw a rhif y ganolfan, enw a rhif yr ymgeisydd a theitl yr uned(au)** yn glir ar y ffolder/ffeil ei hun.
 - Rhaid i ffolder pob ymgeisydd gynnwys taflen ddilysu wedi'i llofnodi (gweler Atodiad 2 yn y fanyleb). **Ni** ddylid defnyddio ffeiliau modrwy (rhy fawr i'w postio) na waledi plastig (anodd cael gfael ar y gwaith).
 - Lle mae'r gwaith yn cynnwys nifer o aseiniadau, dylid cyfeirio atynt er mwyn cwrdd â deilliannau dysgu/meini prawf asesu.
 - Pan fo'r dystiolaeth a gyflwynir yn ymwneud â'r meini prawf asesu ar gyfer mwy nag un uned, dylid cyfeirio at y dystiolaeth hon ar y taflenni clawr.

Ar gyfer canolfannau sy'n cyflwyno nifer o unedau ar draws cymwysterau/meysydd astudio gwahanol:

- Er mwyn hwyluso'r broses safoni, sicrhewch fod yr unedau sy'n mynd at yr un safonwr wedi'u pacio'n unigol mewn amlen/sach, gyda chyfeiriad y safonwr ac enw a rhif y ganolfan wedi'u marcio'n glir ar yr amlen/sach (mae labeli y gellir eu printio ar gael i'w lawrlwytho o IAMIS)

Er mwyn arbed arian, gellir rhoi'r parseli unigol hyn – wedi'u cyfeirio at bob safonwr – mewn amlen/sach fwy i'w hanfon i CBAC.

D.S. O safbwynt ariannol, cynghorir y canolfannau i anfon tystiolaeth ffotograffig pan fo'r eitemau a gynhyrchwyd gan yr ymgeiswyr yn fawr neu'n drwm.

Ymweliadau Safoni

- Ar gyfer cymhwyster Byw'n Iach a Ffitrwydd, bydd yr ymweliadau safoni ar gyfer yr unedau Addysg Gorfforol ymarferol yn digwydd rhwng y dyddiadau canlynol:
 - Cyfres Ionawr: 29 Tachwedd – 11 Rhagfyr
 - Cyfres Mehefin: 6 Mawrth – 5 Mai
- Unwaith y mae'r canolfannau wedi cofrestru ar gyfer unrhyw un o'r unedau hyn, bydd safonwr yn cysylltu er mwyn trefnu'r ymweliad

Mae gwybodaeth bellach ar ddulliau gweithredu'r ymweliadau safoni i'w cael yn Llawlyfr Gweinyddu Llwybrau Mynediad 2017-18.

Adroddiadau

- Bydd adroddiad safonwr yn rhoi adborth ar gyfer pob uned a gofrestrir gan y ganolfan
- O fis Ionawr 2016 ymlaen, gellir lawrlwytho pob un o adroddiadau'r safonwyr o'r System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol (IAMIS) o'r diwrnod canlyniadau
- Canlyniad y broses safoni fydd naill ai derbyn asesiadau'r ganolfan *neu* ddarparu arweiniad ar yr hyn y mae angen ei wneud cyn i'r ganolfan allu ailgyflwyno unedau penodol mewn cyfres arholi ddilynol
- Bydd adroddiad cyffredinol gan yr Uwch Safonwr ar gyfer pob maes ardystio yn cael ei ddarparu ym mhob cyfres arholi a gellir ei gyrchu ar wefan ddiogel CBAC

Canlyniadau

- Cyfres Ionawr: 8 Mawrth
- Cyfres Mehefin: 7 Gorffennaf

Tystysgrifau

- Cyfres Ionawr: cyhoeddir tua diwedd mis Mai
- Cyfres Mehefin: cyhoeddir tua diwedd mis Medi

Bydd yr ymgeiswyr yn derbyn tystysgrifau Datganiad o Gredyd a thystysgrifau Cyflawni'r Cymhwyster (ar yr amod bod cod 'cyfnewid' y cymhwyster wedi'i gyflwyno'n gywir).